



Ein cyf/Our ref: WQ84553 & WQ84554

Rhun ap Iorwerth AS

rhun.apiorwerth@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Rhun,

Rwy'n ymateb i ddau gwestiwn ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 16 Chwefror ac ymddiheuraf am yr oedi cyn darparu'r wybodaeth y gofynnoch chi amdani. Gallaf nawr gynnig ateb mwy sylweddol na'r ateb dros dro a roddais ar 23 Chwefror.

Yn 2021-22, cynyddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd grant Hwyluso awdurdodau lleol o £1 filiwn er mwyn sicrhau na ddefnyddir y prawf adnoddau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau'r Anabl bach a chanolig eu maint. Cynyddir y grant o £1 filiwn ychwanegol yn 2022-23. Mae'r prawf adnoddau yn gallu bod yn achos oedi a rhwystredigaeth. Bwriedir i'r chwistrelliad yma o arian gyflymu'r ddarpariaeth o addasiadau i bob person anabl, gan gynnwys rhai â MND.

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd wedi rhoi disgresiwn i Fyrddau Partneriaeth Lleol ariannu costau ychwanegol addasiadau dros £36,000 o'u cyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'n werth nodi bod addasiadau mawr yn cymryd amser i ddarparu ac yn amharu'n sylweddol ar y cartref. Nid ydynt bob amser yr ateb gorau i bobl gydag MND. Gall fod dewisiadau eraill megis offer, gofal a chefnogaeth, a therapi adsefydlu er mwyn arafu dirywiad yn well dewisiadau, o gofio cyflymder y cyflwr.

Mae'r datblygiadau hyn yn gam mawr ymlaen i sicrhau bod pobl anabl, yn cynnwys rhai gyda chyflyrau niwrolegol a niwrogyhyrol, yn gallu derbyn addasiadau yn gynt.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.